Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **27 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (EC) Rhif 999/2001
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/453
- Penderfyniad y Comisiwn 2009/719
- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011
- Cytundeb yr AEE

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yn feysydd lle mae'r cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli.

Mae darpariaeth yn yr OS hwn sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau o ran Cymru yn ddilyffethair ac i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau o ran Cymru.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol â chydsyniad yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**
Bydd Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn sicrhau y bydd pum darn o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE yn gwbl weithredol pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae'r Rheoliadau hyn ymwneud ag atal clefydau anifeiliaid sy'n fater datganoledig ac sy'n cael ei weithredu a'i

orfodi gan ddeddfwriaeth ddomestig debyg sy'n deillio o'r UE ym mhob cenedl gyfansoddol y DU.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy’n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-transmissible-spongiform-encephalopathies-and-animal-by-products-amendment-etc-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau’n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.